# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 4**

PWERAU YMCHWILIO ACC

**PENNOD 2**

PWERAU I WNEUD GWYBODAETH A DOGFENNAU YN OFYNNOL

## 86 Hysbysiadau trethdalwr

(1) Caiff ACC ddyroddi hysbysiad ("hysbysiad trethdalwr") sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson ("y trethdalwr") ddarparu gwybodaeth neu gyflwyno dogfen—

(a) os oes angen yr wybodaeth neu'r ddogfen ar ACC at ddiben gwirio sefyllfa dreth y trethdalwr,

(b) os yw'n rhesymol ei gwneud yn ofynnol i'r trethdalwr ddarparu'r wybodaeth neu gyflwyno'r ddogfen, ac

(c) os nad oes unrhyw beth yn adrannau 97 i 102 yn rhwystro ACC rhag ei gwneud yn ofynnol i'r trethdalwr ddarparu'r wybodaeth neu gyflwyno'r ddogfen.

(2) Ond ni chaiff ACC ddyroddi hysbysiad trethdalwr heb gymeradwyaeth y tribiwnlys.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 86 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 194(2)**

**I2** A. 86 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/33, **ergl. 2(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Adran 86.